

Debyd uniongyrchol

Beth sydd angen i chi ei wybod

Beth y gallwch ei wneud i sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir?
Beth y gallwch ei ddisgwyl gan eich cyflenwr pan fydd yn adolygu eich taliadau? A beth sy'n digwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith?

Debyd uniongyrchol yw un o'r **ffyrdd cyflymaf a hawsaf** o dalu biliau ynni. Mae dros 56 y cant o gwsmeriaid yn talu eu biliau ynni yn y ffordd hon ac efallai y bydd eich cyflenwr yn cynnig gostyngiad os byddwch yn talu drwy'r dull hwn.

Mae Ofgem am i chi ddeall sut i fanteisio i'r eithaf ar dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir a'ch bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan eich cyflenwr.

Gallwch gadw'r wybodaeth hon wrth law, fel y gallwch edrych arni pan ddaw'r amser i adolygu eich taliadau debyd uniongyrchol.



Beth y gallwch ei ddisgwyl gan eich cyflenwr:

Sut y caiff eich debyd uniongyrchol ei gyfrifo

Dylai eich cyflenwr esbonio hyn yn glir. Rhaid i bob cyflenwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod eich taliadau debyd uniongyrchol yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael, er enghraifft, ar faint o ynni rydych wedi'i ddefnyddio. Os ydych yn gwsmer eisoes, bydd eich taliadau'n seiliedig ar eich defnydd o ynni dros y flwyddyn ddiwethaf gydag addasiadau os cafwyd unrhyw newidiadau mewn prisiau. Os ydych yn gwsmer newydd, bydd y taliadau'n seiliedig ar sawl ffactor gan gynnwys darlleniadau blaenorol o'r mesurydd a nifer yr ystafelloedd yn yr eiddo a/neu nifer y bobl sy'n byw yno.

Pam bod angen newid eich debyd uniongyrchol ac o faint

Os bydd angen i'ch taliadau newid, rhaid i'ch cyflenwr esbonio pam. Os bydd angen eu cynyddu, byddwch hefyd yn cael eich hysbysu o leiaf 10 diwrnod ymlaen llaw. Fodd bynnag, os na fyddwch yn deall pam bod eich taliadau'n cynyddu cofiwch y gallwch gysylltu â'ch cyflenwr i ofyn am esboniad.

Beth y gallwch chi ei ddisgwyl gan eich cyflenwr parhad:

Pryd y gallwch ddisgwyl ad-daliad os bydd eich cyfrif mewn credyd

Gallwch weld manylion polisi ad-dalu presennol y cyflenwr mwyaf yn y tabl isod. Rhaid i'ch cyflenwr ad-dalu credyd sydd wedi cronni yn eich cyfrif pan fyddwch yn gofyn iddo wneud hynny, oni bai bod sail resymol dros beidio ag ad-dalu'r credyd hwnnw. Rhaid i'ch cyflenwr roi gwybod beth yw'r rhesymau dros beidio ag ad-dalu unrhyw gredyd, a byddwch yn gallu herio'r penderfyniad hwn os yw'n amhriodol yn eich barn chi.

Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) wedi bod mewn trafodaethau â chwmnïau ynni i roi ad-daliad awtomatig i gwsmeriaid os oes ganddynt gredyd dros drothwy isaf posibl yn ystod adolygiad blynyddol. Fel arall, gellir trosglwyddo'r credyd i'r bil nesaf os byddai'n well gan y cwsmer wneud hynny. Ewch i'r ddolen atodedig ar wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC): <https://www.gov.uk/government/news/energycompanies-to-offer-direct-debit-refunds-to-britishhouseholds>

Adolygiadau rheolaidd o'ch taliadau debyd uniongyrchol

Cynhelir y rhain ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Ceir gwybodaeth am gyfnodau adolygu'r cyflenwyr mwyaf yn y tabl drosodd.

Beth fydd yn digwydd os bydd arian yn dal yn ddyledus gennych ar ddiwedd y flwyddyn dalu

Efallai y bydd rhai cyflenwyr yn cymryd yr arian hwn o'ch cyfrif fel cyfandaliad. Efallai y bydd eraill yn trosglwyddo'r ddyled i'r flwyddyn nesaf. Os ydych mewn dyled, dylai cynllun ad-dalu eich cyflenwr ystyried eich gallu i dalu.

Ymateb clir i unrhyw gwestiwn neu gŵyn

Os na fydd eich cyflenwr yn gallu ateb eich cwestiwn neu ddatrys unrhyw gŵyn mewn modd boddhaol o fewn wyth wythnos, gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hatgyfeirio at Wasanaethau'r Ombwdsmon: Ynni.



Beth y gallwch chi ei wneud:

Darllenwch eich mesuryddion trydan a nwy yn rheolaidd

Drwy ddarparu darlenniadau mesurydd i'ch cyflenwr yn rheolaidd gallwch sicrhau eich bod ond yn talu am yr ynni rydych wedi'i ddefnyddio. Mae hyn hefyd yn rhoi man cychwyn cywir i'ch cyflenwr ar gyfer adolygu eich taliadau debyd uniongyrchol misol. Cysylltwch â'ch cyflenwr os oes angen cyngor arnoch ar sut i ddarllen eich mesurydd.

Edrychwch ar eich biliau pan fyddant yn cyrraedd

Os byddwch yn cael biliau amcangyfrifedig, cymharwch yr amcangyfrifiad â'ch mesurydd ac os ydynt yn wahanol, cysylltwch â'ch cyflenwr i roi darlenniad cywir iddo.

Rhowch wybod i'ch cyflenwr os bydd eich amgylchiadau yn newid gartref

Os bydd eich sefyllfa yn newid ac rydych yn pryderu ynghylch talu eich biliau, dylech gysylltu â'ch cyflenwr. Bydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar y dulliau talu a'r tariffau gwahanol sydd ar gael, cymhwysedd ar gyfer y cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes a grantiau i inswleiddio eich cartref.

Gofyn am ad-daliad

Cyn gofyn am ad-daliad, cofiwch y caiff unrhyw gredyd sydd wedi cronni dros yr haf ei ddefnyddio i dalu am y cynnydd yn eich defnydd o ynni dros y gaeaf. Os yw eich cyflenwr wedi newid ei brisiau ynni yn ddiweddar, gall hyn effeithio ar eich biliau yn y dyfodol.

Meddwl beth sy'n bwysig i chi

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r ffyrdd gwahanol y mae'r cyflenwyr mwyaf yn ymdrîn â debydau uniongyrchol. Os nad ydych yn fodlon ar ddull eich cyflenwr, efallai yr hoffech ystyried newid cyflenwr.

Arferion cyfredol y cyflenwyr mwyaf o ran debyd uniongyrchol

	Nwy Prydain	EDF Energy	E.ON	Npower	ScottishPower	SSE
Sawl ymgais a fu mewn blwyddyn i geisio darllen mesurydd	1-4 yn dibynnu ar y darlenniadau a roddir gan y cwsmer	1-4 yn dibynnu ar y darlenniadau a roddir gan y cwsmer	2-4 yn dibynnu ar yr ardal	2	2	2
Nifer yr adolygiadau/ asesiadau o gyfrifon debyd uniongyrchol bob blwyddyn	O leiaf dwywaith y flwyddyn	Un adolygiad blynyddol, un cais am ddarlleniad chwe mis cyn cynnal adolygiad interim. Gellir cynnal asesiadau ychwanegol yn dibynnu ar ddarlenniadau a dderbyniwyd gan y cwsmer	Hyd at 4 gwaith y flwyddyn	2 ac ar gais	Un adolygiad blynyddol ar ôl derbyn darlleniad mesurydd gwirioneddol	1 adolygiad blynyddol a hyd at 3 adolygiad interim (yn ôl yr angen)
Pa mor aml y caiff cwsmeriaid gyfriflenni debyd uniongyrchol	Bob 6 mis (opsiwn i'w cael bob chwarter) Cwsmeriaid ar-lein bob chwarter	Bob blwyddyn yn yr adolygiad interim ac ar ôl derbyn darlleniad mesurydd (dim ond os na dderbyniwyd o fewn 70 diwrnod i'r bil diwethaf)	Bob chwarter	Bob 6 mis (opsiwn i'w cael bob chwarter) Cwsmeriaid ar-lein bob chwarter	Bob 6 mis (opsiwn i'w cael bob chwarter) neu ar ôl derbyn darlleniad mesurydd gwirioneddol	Bob 6 mis (opsiwn i'w cael bob chwarter)
Yr adeg o'r flwyddyn y dylai credyd fantoli	Ar y dyddiad yr agorwyd y cyfrif	Dyddiad adolygu Debyd Uniongyrchol blynyddol	Annual review Dyddiad adolygu blynyddol	Dyddiad adolygu debyd uniongyrchol blynyddol	Adolygiad blynyddol	Ar y dyddiad yr agorwyd y cyfrif
Swm ar gyfer rhoi ad-daliad credyd awtomatig ar y dyddiad adolygu	£5 os cafwyd darlleniad mesurydd gwirioneddol yn y 4 mis diwethaf	Caiff unrhyw swm o gredyd lle caiff y ddau danwydd eu bilio yn ôl darlenniadau gwirioneddol ei addalu yn yr adolygiad blynyddol.	£5 yn unig os cafwyd darlleniad mesurydd cywir yn y 6 mis diwethaf	Dros £5 yn ystod yr adolygiad blynyddol yn seiliedig ar ddarlleniad mesurydd gwirioneddol	Gall gwsmeriaid ddewis o 3 opsiwn*	£5 os yw'n seiliedig ar ddarlleniad mesurydd
Swm ar gyfer rhoi ad-daliad credyd â llaw	Ar gais os yw'n seiliedig ar ddarlleniad mesurydd diweddar	Ystyrir pob cais. Gallai hyn arwain at newid i werth taliadau parhaus os byddwch yn gwneud cais am ad-daliad balans cynllun.	Ar gais os yw'n seiliedig ar ddarlleniad mesurydd	Unrhyw swm ar gais os yw'n seiliedig ar ddarlleniad mesurydd	Ar gais os yw'n seiliedig ar ddarlleniad mesurydd gwirioneddol	Ar gais os yw'n seiliedig ar ddarlleniad mesurydd.

*1. Ad-dalu unrhyw falans sy'n ad-daliad >£75 (ei rhoi fel ad-daliad diodyn os nad yw'r cwsmer wedi gwneud dewis)
2. Ad-delir unrhyw gredyd yn llawn 3. Cedwir credyd i ostwng taliadau parhaus

Yn gywir o fis Ionawr 2016 ymlaen.
Rydym wedi gofyn i'r cyflenwyr mwyaf roi gwybod i Ofgem am unrhyw newidiadau i'r polisiau hyn ond dylai defnyddwyr holi eu cyflenwyr am eu polisiau cyfredol

Cysylltiadau defnyddiol



Cyngor ar Bopeth

Mae gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol, diduedd, ac am ddim ar faterion defnyddwyr. Cysylltwch â llinell gymorth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar: **03454 04 05 06**.

Gwasanaethau'r Ombwdsmon: Ynni

Gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion gan gwsmeriaid domestig a microfusnesau na all y cyflenwr ynni neu'r gweithredwr rhwydwaith eu datrys yn foddhaol. Fel arfer, gall ddelio â chwyn os yw wedi

bod gyda'r cwmni ynni am 8 wythnos neu os yw'r cwmni wedi datgan bod y gŵyn yn un heb ei datrys (h.y. maent wedi dweud na allant wneud mwy) p'un bynnag yw'r cynharaf. Gall yr Ombwdsmon ofyn i'r cwmni ynni ymddiheuro a chyfeirio cwmni i gymryd camau ymarferol i ddatrys cwyn, ac, mewn rhai achosion, i wneud dyfarniad ariannol. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon ar: **0330 440 1624**.